## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1444(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mai 2010**

**At Andrew R.T. Davies:**

Ysgrifennaf atoch ynghylch eich cwestiwn a anfonwyd ataf ar 21 Ebrill ynglŷn â'r treial swyddogion traffig ar hyd coridor yr M4 yn Ne Cymru.

Dechreuodd y treial ym mis Chwefror 2010 a bydd yn para am 12 mis. Ar hyn o bryd ein bwriad yw gwerthuso manteision y gwasanaeth ar ddiwedd y treial a chynnal adolygiad interim ar ôl 6 mis.

Rydym yn monitro hynt y treial ac amgaeaf y daflen fonitro ddiweddaraf er gwybodaeth. Mae'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd wythnos 11 (25 Ebrill 2010). Mae'n dangos nifer y damweiniau y deliwyd â nhw hyd yma ac amser mynd i'r damweiniau. Nid oes modd gwerthuso'r manteision ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth gynnar yn dangos bod y gwasanaeth yn effeithiol, yn ymateb yn gyflym ac yn gallu mynd i'r afael ag ystod eang o broblemau. Mae'n bwysig cofio mai'r Heddlu sy'n parhau i fod yn gyfrifol am ddamweiniau pan fydd anafiadau, er y bydd y swyddogion traffig yn eu helpu.